OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 88

Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018

Trefniadau talu'n ôl – y darpariaethau sydd i'w cynnwys

4. Y darpariaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(a) yw—

(a) y bydd y talu'n ôl y mae'r trefniadau'n darparu ar ei gyfer wedi ei gwblhau yn ddim hwyrach na 90 o ddiwrnodau ar ôl yr ad-daliad y mae'n ymwneud ag ef;

(b) na wneir unrhyw ddidyniad o'r swm perthnasol ar ffurf ffi neu dâl (ym mha fodd bynnag y'i mynegir neu y rhoddir effaith iddi neu iddo);

(c) y bydd y talu'n ôl yn cael ei wneud mewn arian parod neu ar ffurf siec yn unig neu, gyda chytundeb yr hawlydd, drwy drosglwyddiad electronig;

(d) y bydd yr hawlydd yn ad-dalu i ACC unrhyw ran o'r swm perthnasol nad yw wedi ei thalu'n ôl erbyn yr adeg a grybwyllir ym mharagraff (a);

(e) y bydd yr hawlydd hefyd yn trin unrhyw log a delir gan ACC ar unrhyw swm perthnasol a ad-delir gan ACC yn yr un modd ag y mae'r swm perthnasol i'w drin o dan baragraffau (a) a (b); ac

(f) y bydd yr hawlydd yn cadw'r cofnodion a ddisgrifir yn rheoliad 6.